COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR DDYDD IAU 26ain HYDREF 2000 AM 10.30 YN NHŶ CARADOG, 1-6 ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Presennol

Comisiynwyr	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro Sunderland (Cadeirydd)	Roger Knight (Ysgrifennydd)
Mr E Ll FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd) (o 11.50am)	Clive Chapman
Mrs S G Smith (Aelod)	

1. Cofnodion o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 13eg Medi 2000

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Comisiwn yn amodol ar rai mân newidiadau.

2. Materion yn codi

2.1 Hawliau Dynol

O ganlyniad i'r gwahoddiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i fynychu seminar yn Llandudno ar effeithiau'r Ddeddf Hawliau Dynol, cytunodd y Dirprwy Gadeirydd i fynychu ac adrodd yn ôl i'r Comisiwn.

2.2 Arolwg Polisi

Y gobaith oedd y byddai fersiwn gorffenedig yr Arolwg Polisi a gynhaliwyd gan yr Is-adran LGM ar y Comisiwn yn cael ei chymeradwyo gan y Cynulliad yn y dyfodol agos.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Siroedd Ceredigion a Phenfro yn ardal Llandudoch – drafft cyntaf yr Adroddiad Cynigion Drafft

Yn amodol ar gydnabyddiaeth o lythyr a'i gynnwys a dderbyniwyd yn ddiweddar gan Faer Aberteifi yn yr adroddiad drafft, a rhai mân newidiadau, **cytunwyd** y dylid cyhoeddi'r Adroddiad Drafft a'i gynigion. Gwnaed sylwadau cadarnhaol ynglŷn â fformat yr adroddiad drafft hwn.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Siroedd Caerfyrddin a Phenfro – arolwg o gyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 17eg Hydref 2000.

Yn dilyn Cyfarfod Cyhoeddus llwyddiannus a llawn gwybodaeth yng Nghlunderwen i ystyried tystiolaeth a dderbyniwyd oddi wrth yr Awdurdodau Unedol a Chynghorau

Cymuned, **cytunwyd** y dylid paratoi adroddiad drafft i'w ystyried a'i gyhoeddi yn y dyfodol, yn cynnig newid i'r ffin bresennol a fyddai'n trosglwyddo Cymuned Clunderwen i Sir Benfro.

5. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam – llythyr oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

5.1 Nododd y Comisiwn na fyddai'r Cynulliad, er gwaethaf camau gweithredu Sir Ddinbych, yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau newydd ynglŷn â therfyn amser yr arolwg. O ganlyniad i gyngor cyfreithiol a dderbyniwyd oddi wrth Gyfreithiwr y Trysorlys, **cytunwyd** i barhau â chomisiynu ymgynghorwyr ariannol a recriwtio Swyddog Gweithredol ychwanegol i alluogi'r Comisiwn i barhau â'r arolwg. Teimlwyd mai dim ond pan fyddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi egluro'r sefyllfa ar ariannu y gellid gwneud hyn. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd y byddai'n cysylltu â'r is-adran noddi i gael eglurhad o'r pwynt hwn.

5.2 Nododd y cyfarfod nad oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu llythyr wedi rhoi unrhyw ystyriaeth wrth adolygu'r terfyn amser ar gyfer cwblhau'r arolwg i'r oedi a achoswyd o bosibl oherwydd bwriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Dinbych i gyflwyno arolwg barnwrol i'r Cynulliad, sydd bellach wedi'i gynnal. Oherwydd hyn, cytunodd y cyfarfod y dylai'r arolwg barhau, yn amodol ar eglurhad o ariannu'r arolwg.

6. Arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Casnewydd a Thorfaen – amserlen yr arolwg.

6.1 Nododd yr Ysgrifennydd y dylai'r arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Casnewydd a Thorfaen, gyda chaniatad y Comisiynwyr, ddechrau ym mis Ionawr 2001. **Cytunwyd** ar hyn.

6.2 Manteisiodd y cyfarfod ar y cyfle i nodi'r arolwg o ganfyddiadau Arolwg Cymuned Cynffig a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Unedol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

6.3 Nododd y cyfarfod hefyd yr arolwg posib o Gwm Aman Uchaf a allai barhau am 12 mis neu fwy. Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai hyn yn chwarae rhan yn y broses o baratoi cynllun gweithredol 2001/2002 y Comisiwn a fyddai'n barod i'w archwilio yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn, cyn ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

7. Adroddiad Cyllideb ar gyfer 2^{il} Chwarter 2000/01

Cytunodd y cyfarfod i drosglwyddo arian o'r categori TG Treuliadwy yn y gyllideb i gwmpasu diffyg o dan yr is-bennawd Costau Staff.

8. Unrhyw Fater Arall

8.1 Cyfarfod Cyswllt y DG

Gofynnwyd i'r Comisiynwyr am ddyddiadau posib y gallent fynychu Cyfarfod Cyswllt nesaf y DG. Roedd Gweithrediaeth yr Alban wedi cynnig yr wythnos yn dechrau 5ed Chwefror 2001, ond gwelwyd nad oedd yr wythnos hon yn addas. Byddai'r Ysgrifennydd yn cysylltu â chydweithwyr yn yr Alban i gynnig dyddiadau yn yr wythnos ganlynol yn dechrau ar y 12fed Chwefror 2001.

8.2 Recriwtio Ysgrifennydd

Nododd y cyfarfod bod yr hysbyseb ar gyfer swydd Ysgrifennydd i'r Comisiwn wedi ei gosod yn y wasg, a bod sawl ymholiad ac ambell i gais wedi eu derbyn ar ei chyfer.